# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p5): 31 Ionawr 2008

**Cyfeirnod y ddeiseb P-03-095: Cynllun gwastraff rhanbarthol drafft De-ddwyrain Cymru**

**Geiriad y ddeiseb: Mae geiriad y ddeiseb i'w weld ym mhapur PET(3) 02-08 (p5A).**

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon.

### Cefndir

Mae Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn darparu cynlluniau rheoli gwastraff strategol hirdymor ynghyd â fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer bob un o'r tri rhanbarth cynllun gwastraff (y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb am baratoi, monitro ac adolygu'r cynlluniau hyn i'r Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol. Cynghorwyr o awdurdodau cynllunio'r rhanbarthau yw aelodau'r grwpiau hyn. Mae'r tri Grwp Gwastraff Rhanbarthol yn cael cymorth gan grwp technegol. Swyddogion awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, CNLCau eraill yw aelodau'r grwpiau technegol, yn ogystal â chynrychiolwyr o fyd diwydiant a grwpiau amgylcheddol.

Cynllun anstatudol yw Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Wedi iddo gael ei gyflwyno, bydd yn disodli'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol presennol a bydd yn ystyriaeth berthnasol o ran cynllunio. Dechreuodd y broses adolygu ym mis Ebrill 2005. Cynhaliwyd proses ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid dros gyfnod o ddeg wythnos ddiwedd 2007 er mwyn cynnwys y casgliadau yn Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a gaiff ei gyhoeddi yn 2008.

Mae gwybodaeth ategol gan y deisebwyr ynghlwm ym mhapur PET(3) 02-08 (p5B) a (p5C).

Copi o lythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r prif ddeisebwr yw Papur PET(3) 02-08 (p5D), yn rhoi braslun o safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â phryderon y deisebwr.

### Deisebau Ychwanegol

Bydd y Pwyllgor hefyd am nodi bod deiseb arall wedi'i derbyn mewn perthynas â'r broses ymgynghori yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, a bod dwy ddeiseb wedi'u derbyn mewn perthynas â'r broses ymgynghori yn rhanbarth y Gogledd.

Mae dwy o'r deisebau hyn wedi'u geirio bron yn union yr un fath â deiseb P-03-095. Maent ynghlwm ym mhapur PET(3) 02-08 (p5E) a (p5F), ac mae'r deisbwyr yn fodlon i'r Pwyllgor eu hystyried fel un ddeiseb.

Bydd y drydedd yn cael ei hystyried ar wahân fel deiseb P-03-101, ac mae wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor ei hystyried o dan yr eitem hon ar yr agenda.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008